Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:01 Page 1


# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 41. RHIF 5 HYDREF 2019 50c


# LLONGYFARCHIADAU I'R IFANC



*Priodwyd Sara Williams a John Fielding ar 5-7/2019 ym Methel gan y Parch. Ddr. D. B. Rees. Diwrnod tesog. Hapusrwydd mawr. Aeth y ddau ar eu mis mêl o gwmpas Boston ac Efrog Newydd. Gweithia'r ddau yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Glannau Mersi*



*Matilda Eleanor, merch Bethan a Will Parker, wyres i Jennifer Cunningham a gor-wyres Menna Edwards*




*(uchod) Elin Wrennal, Olivia See a Dafydd Wrennal (gweler tud 11)*



*(chwith) Graddiodd Lisa o Brifysgol Caerdydd gyda gradd MSc Meistr mewn Gwyddor Data a Dadansoddi*



*Tomos a Johua Rees wedi dringo i gopa mynydd Kilimanjaro*

Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:01 Page 2

Golygyddol

# *NEWID HINSAWDD - gan D. Ben Rees*

Ni fu haf 2019 yn haf hawdd o gwbl i ni fel teulu trwy ddamwain erchyll a gafodd fy mhriod Meinwen a diolchwn yn ddidwyll am bob cefnogaeth, cymorth, cerdyn, ymweliadau oddi wrth cymaint o Gymry sy'n darllen *Yr Angor*. Ynghanol y gofid a'r deisyfu cynhaliwyd *Gŵyl Yr Angor* a chawn ddisgrifiad o'r amgylchiad gan Nan Hughes Parry. Gwerthfawrogwn yr adroddiad cynhwysfawr yn y rhifyn hwn o'r *Angor*.

Cwestiwn a mater a fu yn ein poeni ni trwy'r haf poeth a gwlyb oedd newid hinsawdd. Dyma sydd i'n poeni ni yn ddyddiol, ac mae'r drafodaeth yn eang ac yn cwmpasu pob cyfandir. Gwelsom blastig ar gyfandir yr Antarctig!! Mae'r gymuned wyddonol ryngwladol yn ein rhybuddio fod angen gostyngiad sylweddol mewn carbon er mwyn osgoi dyddiau gofidus a all beryglu dinasoedd ac ynysoedd a gwledydd.

Cofiaf yn dda ddarllen hanes y ffoaduriaid newid hinsawdd cyntaf ddeg mlynedd yn ôl – ychydig gannoedd o drigolion ynysoedd y Cefnfor Tawel sydd â'u bywyd bellach ar y dibyn. Gwelwyd lefelau'r dŵr yn codi a bu'n rhaid gwynebu ar batrymau trist o dywydd cwbl simsan a chyfnewidiol. Dywed y gwyddonwyr mwyaf syber y gall y nifer o ffoaduriaid tebyg erbyn 2050 gyrraedd o leiaf 150 o filiynau, gyda phob dinas a phentref o fewn y Cylchfa Dymherus bresennol yn gweld dylifiad o bobl ar eu cythlwng, heb gartref na gwaith, heb le i roddi eu pennau i lawr i orffwys ar y daith. Yn ychwanegol bydd o leiaf 150 o filiynau eraill, sydd yn ceisio bywoliaeth o'r tiroedd crasboeth, yn mynd yn fwy analluog i ennill arian ac yn methu cynnal eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae'r dasg yn enfawr ac nid oes gan unrhyw gorff o bobl yr ateb. Yr alwad fawr yw addysgu'n gilydd, a dyma fater i bob cymdeithas ddiwylliannol, gwleidyddol, crefyddol i fynd i'r afael ag ef. Trefnodd Cytûn aml i gynhadledd yng Nghymru a daw'r mater yn gyson ar agenda ein bywydau. Yn bersonol mae'r her yn aruthrol ac yn haeddu aml i lythyr i ***Taro Post.*** Eisoes yr ydym yn dangos tosturi i'r rhai sydd yn dioddef erledigaeth a newidiadau yn y ffordd o fyw. Dyna ddechrau da yn hanes aml i gymuned led led y Deyrnas Unedig.

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi

# *HANES CYMRY LERPWL*

Braf yw gallu tystio bod y Parchedig Ddr D. Ben Rees wedi gorffen llunio cyfrol sylweddol yn yr iaith Gymraeg ar Hanes Cymry Lerpwl, ffrwyth 50 mlynedd o ymchwil dygn i'r ffynhonellau. Erbyn canol Awst 2020 gobeithia y bydd y fersiwn Saesneg wedi ei chwblhau ar yr un testun. Bwriedwn gael pedwar argraffiad, sef dwy gyfrol clawr meddal yn Gymraeg a Saesneg a dwy gyfrol clawr caled yn Gymraeg a Saesneg. Ym mhob argraffiad ceir dros gant o luniau addas a bwriedir wrth gyhoeddi defnyddio papur a teip darllenadwy, a lamineiddio er mwyn cael graen ar gyfrol o dros 500 o dudalennau.

I gyflawni y cyfan hyn gyda graen teimlwn fel Cymdeithas y dylem wahodd unigolion, cymdeithasau a chwmnïau i gefnogi y fenter fawr hon ac yna cyfrannu tuag at y costau uchel am y gwahanol fersiynau. Bydd y gyfrol Gymraeg yn ymddangos Nos Fawrth 26 Tachwedd 2018 am 7-30 o'r gloch yng Nghanolfan y Cymry (mynediad Auckland Road, Allerton), Lerpwl am 7.30pm o'r gloch o Wasg y Lolfa. Bydd y gyfrol Saesneg yn ymddangos y flwyddyn nesaf, yn mis Medi 2020.

Gwahoddir chwi i ymateb yn ddiymdroi ac mi fydd pawb fydd yn cyfrannu £50 yn derbyn copi clawr caled o'r gyfrol Gymraeg neu'r Saesneg. A wnewch chwi nodi eich dymuniad am y gyfrol gan y bwriadwn ei rhifo, hefyd ei llofnodi ac mi fydd eich enw a'ch cyfraniad yn cael ei nodi yn rhestr y Tanysgrifwyr yn y cyfrolau.

*Gyda diolch didwyll,*

Dr. Arthur Thomas (*Ysgrifennydd*)
e-bost: arthurthomas1@talktalk.net
Ms Rachel Gooding (*Trysorydd*) e-bost: RG@range.seftn.sch.uk
Gyda cymeradwyaeth Dr. D Ben Rees (*Cadeirydd*)
e-bost: benatgarthdrive@talktalk.net

## YMATEB

Enw . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Archeb – dynoder a chroes

**1. personol** ☐
**2. i Gymdeithas** ☐
**3. i Gwmni** ☐
**Archeb am y Gyfrol Gymraeg a'r Saesneg (Rhif)** ☐
**Archeb am Gyfrol Gymraeg (Rhif)** ☐
**Archeb am Gyfrol Saesneg (Rhif)** ☐

Anfoner y swm priodol trwy siec neu arian rhydd i'r Trysorydd, Cymdeithas Etifeddiaeth Cymru Glannau Mersi / Merseyside Welsh Herirage Society, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, L18 6HW, a chaiff ei nodi yn Yr Angor a hefyd yn rhestr y Tanysgrifwyr.

---

**Rhestr 1 (Mai 1 - Mehefin 30, 2019) = £3,350**

***Rhestr 2 (Gorffennaf 1 - Awst 31)***

i) Er cof am Mrs Elizabeth Winifred Morris (gynt o Lerpwl) y swm o ........................................£20
ii) Ceris Gruffudd, Penrhyn-coch, Ceredigion y swm o .................................................................£50
iii) Mair Roberts (Telynores Colwyn), Rhuthun y swm o................................................................. £50
iv) Yr Athro Huw Rees, Boncath, Sir Benfro, y swm o £50
v) Eleri a Dr. Robin Gwyndaf, Llandaf, Caerdydd, y swm o .................................................................£60
vi) Jennifer a Betty Lockyer o ardal Llanbedr-Pont-Steffan y swm o ....................................................£50

Cyfanswm ......................................**£280**

Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:01 Page 3

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Yn y rhifyn hwn o'r Angor cawn lun baban Bethan Stewart-Parker gyda'i nain a'i hen nain (tudalen flaen). Ganwyd Matilda Elinor, plentyn cyntaf i Bethan a Wil yn Ysbyty St. Thomas yn Llundain ar Ebrill 4 y flwyddyn hon. Yr ydym fel Eglwys yn eu llongyfarch fel teulu, ac yn ddiolchgar am gefnogaeth Jennifer Cunningham a Menna Edwards, Blundellsands i'n cymuned. Balch ydym oll.

Cawsom ein hysigo yn emosiynol gan y ddamwain enbyd a ddigwyddodd i Mrs Meinwen Rees yn ei chartref ar Nos Sul, 7 Gorffennaf a'u bod wedi bod ar hyd y misoedd yn gaethiwus. Cyflwynodd Jim ac Elin Boyd a fu yn ffyddlon yn ymweld â hi yn Ysbyty Frenhinol a Granby Hub ei chofion atom, a buom fel eglwys yn gweddïo'n daer yn ein oedfa ar ddiwedd Gorffennaf.

Braf oedd cael cwemni y Parchedig J. Gwyndaf Richards yn ein pulpud ar Sul, 18 Awst. Da oedd gweld y llun o'i deulu ac fe'i adgynhyrchir yn ein hadroddiad o Bethania. Diolchwn i Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree am ei chymwynas gyda'r organ ar y Sul Undebol



*Teulu Gwyndaf Richards*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Yr Iesu tirion sydd â'i fryd*
*Ar gael y byd yn lanach byd,*
*Heb feddwl cas rhwng dyn a dyn*
*Ond maddau'n bai a byw'n gytûn.*

*Fel Iesu, rhoddwn oll ein byd*
*Ar gael tirionach, glanach byd,*
*Nes gweld o'r nef, mor hardd â'r wawr,*
*Jerusalem yn dod i lawr.*

Ein deisyfiad yw i gadw'r ddelfryd hon o waith W. Rhys Nicholas a chael ein harwain i gyfeiriad y wawr.

Dymuniadau gorau yr eglwys i Sara Williams a John Fielding ar eu priodas ym Methel, ddydd Gwener Gorffennaf y 5ed. Cawsom y fraint o weld Sara yn tyfu ac yn aeddfedu dros y blynyddoedd a talodd ei Gweinidog deyrnged hyfryd i'r ddau ohonynt yn ei anerchiad. Paratowyd Bethel yn hardd ar gyfer yr amgylchiad pwysig hwn, a chafwyd diwrnod braf gyda'r ddau deulu wrth eu bodd ymhlith y priodfab a'r priodferch. Gwnant eu cartref newydd yn Woolton.

Bu llawer ohonom ar grwydr ym mis y gwyliau ac amryw o Gymry Lerpwl i'w gweld ar Faes yr Eisteddfod yn Llanrwst.

Cafwyd cyfle i enaid gael llonydd, ac yn barod i'r tresi eto ym mis Medi wedi cael cyfle i atgyfnerthu.

Cofiwn yn annwyl at y cleifion sydd yn dal mewn gofal ac yn dechrau cryfhau erbyn hyn. Mae Mrs Nerys Vaughan Jones yn ysbyty Broadgreen a Mrs Meinwen Rees mewn cartref atgyfnerthu dros dro. Y ddwy wedi treulio amser prysur yn yr ysbytai ac yn edrych ymlaen rwan at gael mynd adref. Brysiwch wella yw ein dymuniad.

Llongyfarchiadau i ddwy ferch ifanc o blith ein haelodau ar ennill graddau arbennig ym Mhrifysgol Caerdydd a hynny ar yr un diwrnod, sef Lisa Hartley, Allerton, wedi ennill gradd MSc Meistr mewn Gwyddor Data a Dadansoddeg. Olivia See, Woolton hithau wedi cael gradd Dosbarth Cyntaf mewn Daearyddiaeth.

Trosglwyddodd ein Gweinidog gyfrifoldeb am *Y Rhwyd* i'w gynorthwyydd, Parch. Robert Parry a hynny ar ôl cyflawni'r gwaith o'r ysgrifennu am 50 mlynedd. Dymunir yn dda i Robert gyda'r cyfrifoldeb hwn.

Yn ystod Gŵyl yr Angor daeth y



*Teulu Sara*

Gymanfa Ganu atom yn y pnawn am 2 o'r gloch. Arweinydd y Gân oedd y Parch Robert Parry a Mrs Margaret Anwyl Williams, ein cyfeilyddes fedrus wrth yr organ, a'r myfyrdod a'r cyflwyno gan Dr. Pat Williams.



***Margaret Anwyl Williams***

Canwyd deg o emynau o ddewio y Pwyllgor Mawl, a'r cantorion i gyd ar eu gorau yn moliannu Duw. Felly fu'r Ŵyl. Penwythnos o ddathlu a mwynhau. Mae'r gyfrol ***Codi Angor yn Lerpwl, Penbedw a Manceinion*** dan olygyddiaeth Dr. D. Ben Rees yn gofnod arbennig o ddeugain mlynedd. Diolchwn iddo am hynny ac am ein dysgu a'n hysbrydoli a rhoi blas arbennig ar fywyd Cymry Lerpwl dros y blynyddoedd cyfoethog a gawsom.

Llawenhawn fel eglwys fod Rhys Williams (Coedpoeth) wedi ei apwyntio yn Ddirprwy Farnwr yn Llysoedd Gogledd Cymru a'r Gororau. Gweithreda o Wrecsam a dymunir yn dda a'i longyfarch yn fawr.




***Dr. Pat Williams, Llywydd Cymanfa Ganu yn absenoldeb Dr. D. Ben Rees***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Tachwedd 2019** erbyn bore Mawrth, 1 Hydref, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Rhagfyr 2019/Ionawr 2020 2019** – erbyn Gwener, 1 Tachwedd i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch 1 Tachwedd, 2019
- **Rhifyn Chwefror 2020 –** erbyn bore Iasu, 2 Ionawr, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Iau am 1.30 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Cofier lansiad Cyfrol *Hanes Cymry Lerpwl* ar Nos Fawrth, 26 Tachwedd yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch.**



Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:02 Page 5

# GŴYL YR ANGOR

## Llwyddiant Gŵyl yr Angor

*gan Nan Hughes Parry*

Penwythnos o ddathlu a gwerthfawrogi cyfraniad *Yr Angor* yn 40 mlynedd oed ar y Sadwrn a'r Sul, Gorffennaf 20fed a'r 212ain a hynny yn y ganolfan ym Methel ac yn Woolton. Bu ymroddiad y Golygydd y Parchedig Ddr. D. Ben Rees am yr holl gyfnod maith yn ennyn ein hedmygedd a'n diolchgarwch a'i gyfraniad. Ni allwn ddefnyddio pric mesur i gydnabod ei waith a'i ddyfalbarhad ar hyd y maith flynyddoedd.

Mae y gyfrol 'Codi Angor' yn dweud y cyfan, a daw atgofion lawer yn ôl o'r cyfnod a fu.

Bore Sadwrn am 10.30 cyflwynodd Mr. Roderick Owen olygydd *Yr Angor* o'r cychwyn cyntaf y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Cawsom y stori ganddo, y cyfan ar flaenau ei fysedd, a rhyfeddwn at ei allu yn cofio'r cyfan.

Bu seibiant i goffi a bisgedi cyn y ddarlith nesaf gan Dr. John Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Gwelsom gant a mil o luniau ar y sgrin o'r dechrau cyntaf, a hynny o ddiddordeb mawr i'r gynulleidfa.

Côr Bara Brith o Ynys Môn fu'n ein diddori yn sesiwn y pnawn a hyfrydwch o'r mwya i ni oedd cael Robin Huw Bowen, un o'n hogiau ni yn ein diddori a'n dysgu am y delyn deires. Pleser pur a chyfle i eistedd yn ôl a mwynhau. Cyflwynwyd y cyngerdd gan y Parch. Robert Parry.

Yna nos Sadwrn, Cinio'r Dathlu am 7.30 yng nghlwb Golff Woolton. Y gŵr gwadd oedd Dr. Huw Edwards, Llundain, ac yn ei anerchiad graenus di-bapur pwysleisiodd werth y cymunedau yn ein gwlad, a ninnau yma yn Lerpwl mewn uned glos gynnes mewn dinas fawr fel Lerpwl, ac yn gwerthfawrogi gyfraniad y Cymry ar hyd y blynyddoedd. Gofid mawr i ni oedd colli cwmniaeth Mrs Meinwen Rees, hithau yn meddwl amdanom tra'n derbyn gofal yn yr Ysbyty Frenhinol yn Lerpwl. Aeth Dr. Edwards i'w gweld cyn y cinio.




*Fflag Yr Angor yn chwifio am 40 mlynedd*





***Dr. John Williams yn cyflwyno y gyfrol gyntaf o Codi'r Angor i'r Golygydd***

Braf oedd cael cwmni Dafydd y mab a'r teulu o Geredigion i gefnogi ein Golygydd. Diolch i Gwenfyl Bain am ofalu am y trefniant, i Lilian Coulthard am y blodau ar y bwrdd ac i Beryl am werthu'r tocynnau mor ddiwyd. Gallwn ddweud fod y bwyd, y gwmnïaeth a'r anerchiadau y tri doethur wedi plesio pawb!

Bore Sul am 10.30 Oedfa grefyddol Gŵyl yr Angor yng nghapel Bethel, ac aelodau o bwyllgor Yr Angor a phwyllgor Etifeddiaeth Glannau Mersi yn cymryd rhan a'r gweinidog Dr. D. Ben Rees yn traddodi'r Homili ar y testun 'Agwedd ar y gair llafaredig ysgrifenedig'. Y llywydd oedd Dr. John Williams. Braf oedd gwybod fod Radio Cymru wedi darlledu ar 21-7-2019 Oedfa Gŵyl yr Angor. Trefnwyd lluniaeth yn y ganolfan ar derfyn yr oedfa.

***Lluniau:***
***Ray Farley a Dr. John G. Williams***




***Dr. Ben Rees yn ei hwyliau yn cydnabod y gefnogaeth***




***Y darlledwr profiadol yn cychwyn ar ei araith gofiadwy***

Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:02 Page 6



*Elizabeth Williams, Halewood, un o'n cefnogwyr a'i phriod*



*Norma a Roderick, Huw, Beryl a John*



*Bwrdd cefnogwyr a gweithwyr Yr Angor*



*Enid Pierce Hughes yn chwerthin yn braf ar ddywediad y Dr Huw*



*Da gweld Mair Jones (aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ar ôl ei thriniaeth – yn y wledd*






*Cefnogwyr o Lerpwl a Phenbedw*



*Huw Edwards yn cyfarch y Cymry da o Geredigion ynghyd a Gwenfyl Bain*

# CAPEL SEION, PENBEDW

Yn ystod y ddau fis diwethaf mae llawer o weithgareddau wedi denu ein diddordeb ac i Mrs Sarah Davies, Bebington, ein haelod hynaf, mae wedi bod yn amser hapus iawn. Daeth Anna, wyres Sarah, sydd yn byw yn Perth, Awstralia, drosodd i Gilgwri gyda'i gwr a'r baban bach, Max, i aros gyda'i rhieni. 'Roedd yn bleser arbennig i Sarah gael gweld ei gorwyr cyntaf, sydd yn saith mis erbyn hyn. Er eu bod, fel teulu, yn cadw mewn cysylltiad gyda Skype 'roedd cael eu presenoldeb yn y cartref yn beth hollol gwahanol. Mae Sarah wedi cael mis i'w gofio gyda'r teulu bach yma. Peth anarferol iawn ynglŷn â'r teulu bach yma yw fod y baban wedi ei eni ar ddydd penblwydd ei dad a'i fam, felly mae'r tri ohonynt gyda'r un dyddiad penblwydd. Erbyn hyn maent yn ôl gartref yn Perth.

Ar y Sul cyntaf yn Gorffennaf ein pregethwr oedd y Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus. Mae wedi bod yn dod atom am un Sul pob blwyddyn ers 1983 heb golli un Sul. 'Roedd yn bleser mawr cael ei groesawu a gwrando ar ei neges a chroesawu Dilys Askew i'r oedfa hefyd. Mae Gill, merch Dilys, yn hynod o ofalus ohoni ac yn ei chludo i'r oedfa o dro i dro.

Bu Dilys, ynghyd a'r ddiweddar annwyl Margaret Jones yn aelodau ffyddlon iawn rhai blynyddoedd yn ôl. Byddent yn cael trên o Wallasey i Park Station ac yna cerdded i Seion beth bynnag oedd y tywydd. Teimlwn eu colled yn fawr.

Bu'r Parchedig Robert Parry yn ei swydd o gynorthwy-ydd bugeiliol yn cynnal oedfa'r Cymun Sanctaidd ar yr ail Sul a cawsom oedfa arbennig iawn - yn ei eiriau ef "Oedfa gymun o'r dechrau i'r diwedd".

Ni fu oedfa yn y capel ar y trydydd Sul o Gorffennaf gan mae dyma oedd penwythnos arbennig i ddathlu penblwydd Yr Angor yn 40 mlwydd oed. Dyma benwythnos arbennig iawn. Aeth rhai o'n aelodau i'r gweithgareddau ar y Sadwrn ac wedi eu mwynhau yn fawr iawn. 'Roedd y Cinio dathlu yn llwyddiant hefyd.

Cynhaliwyd gwasanaeth ym Methel ar y bore Sul gyda aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cymeryd rhan. 'Roedd y capel yn llawn, y canu yn fendigedig a dyma lwyddiant unwaith eto.

Cafwyd Cymanfa Ganu yn y pnawn dan arweiniad y Parchedig Robert Parry a phawb wedi eu plesio yn fawr. Mae canmoliaeth mawr i holl weithgareddau y penwythnos arbennig yma oedd wedi ei drefnu mor ofalus a thrwyadl gan y Parchedig Athro Dr. D Ben Rees. Diolch yn fawr iddo am ei holl lafur ac am ddethol a golygu "Codi Angor" – Camp o waith. Mawr hefyd yw ein diolch i pawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i sicrhau llwyddiant y penwythnos.

Hyfryd oedd cael croesawu y Parchedig Canon Idris Thomas atom ar y Sul olaf o Gorffennaf a cawsom fwynhad mawr wrth wrando arno yn darllen, canu, gweddïo a phregethu.

Nid oedd Y Parchedig John D. Williams wedi bod yn cynnal gwasanaeth gyda ni am oddeutu tair blynedd ond cawsom eglurhad am hynny a chan ni fydd cymaint o alwad arno o hyn ymlaen bydd yn fwy rhydd i bregethu.

Bu rhai o'r aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac wedi cael mwyhad mawr yno ac eraill ohonom wedi gwrando ar Radio Cymru ac edrych ar S4C ac wedi cael Eisteddfod arbennig iawn ar y teledu. Wythnos i'w chofio, yn wir.

Cawsom gwmni y Parchedig Euron Hughes ar Awst 11eg. Mae wedi bod yn ffyddlon iawn am flynyddoedd fel pregethwr cynorthwyol a dyma'r ail flwyddyn iddo ddod atom fel gweinidog ordeiniedig. Dymunwn pob bendith iddo yn ei weinidogaeth.

Cawsom oedfa gymun yng ngofal y Parchedig Gwyndaf Richards. Dyma ei ymweliad flynyddol gyda ni a phleser oedd ei groesawu i'n plith unwaith eto. Mae wedi gwasanaethu yn Salem ac yna Seion am lawer iawn o flynyddoedd, yn dechrau fel aelod o'r Cwrs Byr.

Gan fod y Parchedig Ifor ap Gwilym wedi methu cadw ei gyhoeddiad gyda ni ar y Sul olaf o Awst, daeth ein cyfaill ffyddlon y Parchedig Victor Edwards i'r adwy unwaith eto. Bydd yn dod i'n gwasanaethu ar bnawn Sul pan fydd ddim yn pregethu yn yr Eglwysi Saesneg. Diolch iddo am ei ffyddlondeb i Seion.


---

**Goronwy Prys Owen,**
***HENRY REES:***
***TYWYSOG EIN PREGETHWYR.***
**Cyhoeddiadau Modern Cymreig ar ran Cymdeithas Dydd yr Arglwydd.**
**76 tt. £8 (clawr meddal)**

Mae'r Parch Dr Goronwy Prys Owen yn awdurdod hynod uchel ei barch yn bennaf ar hanes Methodistiaeth Gogledd Cymru ac yn un a gyhoeddodd nifer o gyfrolau ac erthyglau pwysig yn y maes arbennig hwn. Dyfarnwyd iddo gradd doethuriaeth am ei gasgliad a'i astudiaeth o lythyrau John Elias o Fôn.

Helaethiad yw'r gyfrol fach hardd hon o anerchiad a roddwyd gan yr awdur i Gymanfa'r Sul ar nos Wener, 14 Mehefin 2019 yng Nghapel Unedig Llansannan. Roedd yn achlysur nodedig a fu'n wir ysbrydoliaeth i bawb a fu'n bresennol y noson honno. Mae'r awdur yn honni yma'n hollol wylaidd iddo dderbyn y gwahoddiad i annerch yno 'yn swil ac yn betrusgar'.

Nid cofiant llawn a manwl i'r Parch Henry Rees a gyflwynir inni yma. Gwnaethpwyd y gwaith hwnnw'n barod gan y Parch Dr Owen Thomas, Lerpwl mewn gwaith sylweddol dros ben sydd yn rhedeg i ddwy gyfrol drwchus a bron i 1200 o dudalennau ac a welodd olau dydd yn y flwyddyn 1890, a bu'r astudiaeth hon o gymorth aruthrol i'r awdur presennol wrth iddo lunio'r gwaith llawer iawn mwy cryno hwn.




Tri maes penodol sydd yn derbyn sylw yn yr astudiaeth grefftus hon. Rhoddir sylw arbennig i'w weinidogaeth yn yr Amwythig a Lerpwl, ei gyfraniad i fywyd y Methodistiaid fel arweinydd y Cyfundeb tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a sylwadau ar ei waith yn pregethu'r efengyl. A diddorol sylwi i'r Parch Henry Rees arwain dirprwyaethau i'r Unol Daleithiau, yr Iwerddon a Llydaw yn ystod ei yrfa hir a nodedig. Fe'i disgrifir yma fel 'Tywysog Pregethwyr Cymru' yn ystod ei gyfnod.

Cofiant cryno, confensiynol ei naws a gyflwynir inni yma. Cawn ddarllen manylion cryno am enedigaeth ein cyfaill, ei fagwraeth a'i addysg, yn wreiddiol o fewn un o ysgolion cylchynol Thomas Charles a gynhelid o fewn capel Tan-y-fron, lle eisteddodd ein harwr wrth draed athro o'r enw Richard

Davies. Darllenwn ymlaen i Henry Rees gael ei achub mewn ffordd lled ddramatig yn Sasiwn y Bala yn y flwyddyn 1812 – un o amryw a ddaeth i ffydd bryd hynny. Ei waith cyntaf oedd fel gwas ffarm yn ardal Dinbych.

Aeth ati i ddechrau pregethu yn ystod y cyfnod ffurfiannol hwn, a derbyniwyd ef yn aelod o Gyfarfod Misol Sir Ddinbych yn y Capel Mawr, Dinbych yn Chwefror 1819. Yn ddiweddarach mudodd i ardal Amwythig yn wreiddiol er mwyn ceisio meistroli'r grefft o rwymo llyfrau, ac aeth ati i bregethu o ddifrif gan synhwyro galwad bendant ar gyfer y weinidogaeth o fewn ei enwad. Yno hefyd y daeth yn ŵr priod, cafodd ei ordeinio yn y man, a thrigai yno am gyfnod o bymtheng mlynedd ar eu hyd.

Yn ddiweddarach o fewn y gyfrol hon darllenwn am gyfnod y Parch Henry Rees fel gweinidog yn Lerpwl o 1836 ymlaen. Ceir manylion hynod o ddifyr am ei daith i'r Unol Daleithiau a'r holl broblemau a ddaeth i'w ran yn sgil hyn, ei brofiadau cyffrous o fewn yr Iwerddon, a'i ymweliad â Llydaw yn ddiweddarach. Yna rhoddir sylw i berthynas y Parch Henry Rees a'r Cyfundeb, a darlunnir ei broblemau iechyd cynyddol yn ystod ei flynyddoedd olaf. Roedd trefniadau ei angladd, mae'n debyg, yn anhygoel i bawb o'i gyfoeswyr. Ail-gyhoeddir rhai o'r teyrngedau a roddwyd iddo pryd hynny yn y fan hon.

I gloi, asesir yn gryno cyfraniad y Parch Henry Rees fel pregethwr y gair, a nodir yr hyn a elwir yma yn 'sylwedd diwinyddol'. Mewn diweddglo cymen a phwrpasol nodir 'y meysydd y gallwn elwa o ddilyn ei esiampl', a hynny mewn pump o bwyntiau unigol.

Mewn atodiadau cyhoeddir testun un o bregethau a draddodwyd gan ein cyfaill yn ystod ei gyfnod yn yr Amwythig, a chawn fanteisio ar restr o bregethau cyhoeddedig y Parch Henry Rees. Nid y lleiaf o gymwynasau'r awdur inni yw'r llyfryddiaeth ddethol o gyhoeddiadau perthnasol, y mynegai manwl a luniwyd yn rhyfeddol o ofalus, a'r ffotograffau ysblennydd a gynhwysir o fewn y llyfr. Darperir troednodiadau gwir ddefnyddiol yn ogystal. Ac mae'r gyfrol orffenedig yn destun balchder i gwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig, Lerpwl, ar ei hyd.

***J. Graham Jones***

---

**Cyflwyno:**

# ELEN EGRYN (1807-1876)

***gan Dr. Pat Williams, Allerton***

Bardd na wyddys llawer amdani yw Elin/Elinor Evans, neu Elen Egryn, fel y galwai ei hun, ar ôl enw'r pentref lle y magwyd hi a lle y dysgodd gan ei thad o brifathro y gelfyddyd o ysgrifennu barddoniaeth. Mae ei chyfrol *Telyn Egryn* yn garreg filltir yn hanes llenyddiaeth merched yng Nghymru, gan mai hon yw'r casgliad cyntaf o farddoniaeth seciwlar gan ferch i ymddangos mewn print, a hynny yn 1850, yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd *Y Gymraes*, y cylchgrawn Cymraeg cyntaf i ferched. Go brin y byddai'r gyfrol wedi gweld golau dydd oni bai i Elen Egryn symud i Lerpwl i fyw gyda'i chwaer yn 82 Parliament Street a dod i gysylltiad â Gwilym Hiraethog, a oedd yn weinidog arni yn y Tabernacl, capel yr Annibynwyr yn Chatham Street. Er ei bod yn 43 blwydd oed pan gyhoeddwyd y gyfrol hon, roedd ychydig o'i cherddi unigol wedi ymddangos o'r blaen mewn cylchgronnau, er enghraifft y gerdd 'Ar farwolaeth Dafydd Ionawr', a gyfansoddodd hi tua 1827, pan oedd hi ond yn 20 oed. Mae'n bosibl hefyd mai Elen Egryn oedd awdur y llyfryn bach *Ychydig o hymnau o waith geneth 13 oed perthynol i Ysgol Sabbothol yr Ymneillduwyr yn Llanegryn* a gyhoeddwyd gan Richard Jones Dolgellau, ond heb ddyddiad arno.




Dylanwadwyd ar Gwilym Hiraethog gan radicaliaeth lenyddol Lloegr, lle yr oedd merched fel Elizabeth Barrett-Browning, a oedd ond flwyddyn yn hŷn nag Elen, yn ddigon hyderus i 'ymgystadlu â'r gwŷr am anrhydedd llenyddol', chwedl yntau (*Telyn Egryn,* t. iv). O sylweddoli mai diffyg addysg a chefnogaeth gan ddynion oedd yn bennaf gyfrifol am rwystro merched rhag datblygu fel beirdd, perswadiodd Elen i ymddihatru o'i gwyleidd-dra naturiol a chyhoeddi ei gwaith ar gyfer y genedl gyfan. Mae'n debyg mai syniad Gwilym Hiraethog oedd cyflwyno'r gwaith i'r Arglwyddes Hall o Lanofer, efallai yn y gobaith y câi Elen ei noddi ganddi ond ni wyddom a ddigwyddodd hynny ai peidio. Serch hynny, cyhoeddwyd y gyfrol a chanmolwyd hi i'r entrychion gan adolygydd di-enw yn *Y Gymrae*s, a anogodd y darllenwyr i brynu'r gyfrol. Deng mil oedd y targed cyn pen y flwyddyn. Roedd Elen hithau yn gefnogol i'r cylchgrawn newydd hwn ac mewn cerdd yn yr Atodiad i *Telyn Egryn*, mae hi'n annog merched Cymru i'w ddarllen:

> Nid yw magu moch a gwyddau
> 'N ddigon i'n meddyliau ni.

Prif themâu ei cherddi yw crefydd, galar, cyfeillgarwch, alltudiaeth ac iselder ysbryd. Cerddi yn y mesurau rhydd yw'r rhan fwyaf ohonynt a'r hyn sydd yn eu nodweddu yw'r mynegiant o'i theimladau personol. Mae hi'n mynegi hiraeth am ei chartref yn 'Bwthyn fy Nhad', sydd i'w chanu ar y dôn *'Home Sweet Home'*. Hefyd, mae hi'n cwyno am 'esgeulustra brawd', mewn cerdd o'r enw hwnnw. Ac mewn cerddi eraill mae hi'n disgrifio'r salwch meddyliol a oedd yn ei llethu o dro i dro ac yn peri i'r awen sychu:

> Ar yr helyg bu fy nhelyn
> Yn grogedig amser maith;
> Ond, os caf iachâu fy mhigyn,
> Canu bellach fydd fy ngwaith.

Nid yw'r gyfrol hon yn orchestwaith llenyddol o bell ffordd, ond mae'n bwysig am iddi fraenaru'r ffordd i ferched eraill gyhoeddi eu gwaith yn ddiweddarach. Yn wir, mae'r ffaith fod *Telyn Egryn* wedi ei hailgyhoeddi yng nghyfres clasuron Gwasg Honno, a bod hyd yn oed ystâd newydd o dai yn Nhywyn wedi ei enwi ar ei hôl, sef Llys Elen Egryn, yn achos llawenydd fod ei chyfraniad i lenyddiaeth merched wedi ei gydnabod o'r diwedd.



*Gwynebau Cyfarwydd*



*Bwrdd y Cymry ar Wasgar – o Aughton, Roby, Caer, Manceinion, swydd Hertfordshire a dysgwyr yr iaith*

D. Ben Rees (golygydd),
**Codi Angor yn Lerpwl a Penbedw a Manceinion.**
Cyhoeddiadau Modern Cymreig. 406 tt.
£15 (clawr caled) a £10 (clawr meddal)

Lansiwyd *Yr Angor*, sef papur bro nodedig a phoblogaidd Lerpwl, Penbedw, Cilgwri a Manceinion hefyd (yr olaf ohonynt ychydig yn ddiweddarach), yn y flwyddyn 1979, sef ychydig flynyddoedd yn unig wedi i'r arfer o gyhoeddi papurau bro sefydlu ei hun o fewn Cymru, arfer yn wir a ledodd fel tân gwyllt i bob cwr o'r wlad. A bu'r fenter yn ddi-os yn llwyddiant ysgubol. Sefydlodd y papur ei hun yn fuan iawn fel rhan bwysig o fywyd diwylliannol Cymry Cymraeg yr ardaloedd arbennig hyn o fewn Lloegr. Cyhoeddwyd deg rhifyn o'r papur yn flynyddol drwy gydol y blynyddoedd yn rhyfeddol o brydlon. A dechreuwyd cynnwys lluniau lliw apelgar yn reit gynnar yn hanes y fenter.

Y golygydd egnïol a llafurfawr o'r cychwyn cyntaf oll hyd at fis Mai eleni oedd y Parch Dr D. Ben Rees, deinamo o ddyn os bu un erioed, a daflodd ei hun i mewn i'r gwaith golygyddol gyda'i ymroddiad a'i ysbrydoliaeth arferol. Ni fu pall ar ei frwdfrydedd dros y gwaith hwn, a chafodd gydweithrediad parod ei gyfranwyr cefnogol a'r darllenwyr hwythau dros y blynyddoedd hyn. Yn ogystal, bu iddo dderbyn y swydd o fod yn gadeirydd ar bwyllgor gwaith *Yr Angor* ar y cychwyn cyntaf oll. A cheir cyfle i ddarllen manylion hynod o ddifyr am brofiadau a her y blynyddoedd cynnar hyn o fewn y gyfrol hon, testun ymffrost yn bendant i'r Dr Rees.

Mae rhyw dri chant o ffyddloniaid yn prynu'r papur yn rheolaidd, ac amcangyfrifir fod canoedd o rai eraill yn ei dderbyn yn ail law fel petai ac yn darllen y cynnwys yn ofalus ac yn werthfawrogol. Ac erbyn hyn mae cyllido argraffu a dosbarthu pob rhifyn yn costio o gwmpas £450, er mae 50 ceiniog yn unig yw pris y clawr hyd at heddiw.

A'r hyn a geir o fewn y gyfrol ryfeddol o hardd bresennol sydd yn rhedeg i fwy na phedwar cant o dudalennau yw detholiad difyr o'r ysgrifau a gyhoeddwyd o fewn *Yr Angor* dros y cyfnod estynedig hwn. A cheir dim llai na 218 ohonynt o fewn y casgliad arbennig hwn, sef y rhai pwysicaf oll ym marn y golygydd ei hun. Ac yn goron ar y cyfan cynhwysir nifer sylweddol o ffotograffau lliw yma ac acw ar hyd y gyfrol. Ar gefn y gyfrol ceir llun lliw penigamp, hollol nodweddiadol o'r Dr Rees yn llafurio'n ddiwyd o fewn ei stydi yn ei gartref yn Lerpwl gyda silffoedd o lyfrau o'i gwmpas, rhan fechan o'i lyfrgell bersonol anferthol.

O ddiddordeb arbennig yw'r adolygiadau, amryw o'r rhain o waith y Dr Rees ei hun, a'r ysgrifau coffa coeth ac urddasol i nifer fawr o gyfeillion dinas Lerpwl a Phenbedw. Ceir yn ogystal ysgrifau pwysig ar nifer o ddigwyddiadau pwysig fel terfysg Toxteth, Tachwedd 1981, dathliadau Patagonia ym 1988, gweithgareddau Pwyllgor y Mileniwm, a hanes yr Undeb Corawl Cymreig Lerpwl yn Efrog Newydd, 2009. A cheir ysgrifau gafaelgar o waith nifer o gewri o bwys cenedlaethol yma, yn eu plith Huw Edwards, Bobi Jones, Dic Jones, J. E. Jones, John Gwynfor Jones, y Parch Harri Parri a'r Parch Rhydwen Williams. Gwledd o ddarllen yn wir a fydd at ddant pawb.




O blith yr ysgrifau a gefais flas anghyffredin dros ben ar eu darllen oedd 'Arwr oedd Hywel Teifi' o waith Hywel Gwynfryn; 'Cyflwyno Kate Roberts' gan Patricia Williams; 'Dyledwr ydwyf i W. Ambrose Bebb' gan Ieuan Lloyd; 'Pwyllgor y Mileniwm' o waith Eleri Edwards; a'r portread o Gwilym Hiraethog gan Meinwen Rees, sef gwraig y golygydd a fu'n gymaint o gefn ac yn gynhaliaeth iddo yn ddi-baid drwy gydol eu taith briodasol dros gyfnod o hanner can mlynedd. Mawr yw ein dyled i hithau yn ogystal ac i'r Dr Rees. Dymunwn adferiad iechyd iddi hi ar hyn o bryd.


Ac un o'r digwyddiadau mwyaf diweddar i gael sylw llawn o fewn tudalennau'r papur yn rhifyn Awst a Medi 2019 yw'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd i gofio Henry Rees, Lerpwl, un a fu farw 150 o flynyddoedd yn ôl yn 1869, adeg lansio cyfrol arbennig o waith y Parch Dr Goronwy Prys Owen.

A thestun rhyfeddol ac edmygedd arbennig yw'r rhestr o 'r holl unigolion a gyfrannodd yn hynod hael o'u pocedi eu hunain i sicrhau na fyddai cyhoeddi cyfrol mor gain yn golygu unrhyw golled i Gymdeithas yr Angor. Ac yn olaf oll dyletswydd yw diolch o waelod calon i Gyhoeddiadau Modern Cymreig am eu parodrwydd i gyhoeddi'r gyfrol mewn da bryd ar gyfer dathliadau 2019. Fe'i ceir mewn fformat clawr caled a chlawr meddal ar unwaith, a'r ddau ar gael am bris rhesymol sydd o fewn cyrraedd bron i bawb ohonom. Hir oes a phob llwyddiant i'r Angor am flynyddoedd lawer eto i ddod. Mae modd i'r papur wynebu'r dyfodol mewn ffydd a gobaith yn ddi-os. Llongyfarchion gwresog i bawb a fu'n gysylltiedig â llunio pob rhifyn o 1979 ymlaen. Da iawn chwi oll.

***J. Graham Jones***

# PIGION O'R EISTEDDFOD 2019 gan Dr. John G. Williams

• Llongyfarchiadau i Glynn Morris, Manceinion am ennill cystadleuaeth 'Canu Emyn i bobl 60 oed a throsodd unwaith' eto. Mae Glynn a Jim Parc Nest wedi codi gobeithion y sawl ohonom sydd mewn oedran deg ac yn dal i freuddwydio am lwyddiant yn yr Eisteddfod rhyw dro !



*Glynn Morris*

• Braf oedd cael cyfarfod Cymry Lerpwl ar y maes yn enwedig Gwyndaf ac Eirlys Richards. Cawsom gwmni Cerys sydd yn dri mis oed ac yn ferch i Annwen. Pob dymuniad da i'r teulu i gyd. *(gweler hanes Bethania)*

• Llongyfarchiadau i Daniela Schlick am gael ei derbyn i'r Orsedd (Wisg Las) ar fore Gwener yr Eisteddfod.



*Daniela Schlick*




*Cymru, Lloegr a Llanrwst*

Cyrhaeddodd Daniela rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn yn 2017, ddwy flynedd yn unig ar ôl symud yma o'r Almaen. Erbyn hyn, mae'n gweithio fel cydlynydd datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes i Fentrau Iaith Cymru. Hi oedd yn gyfrifol am deipio y gyfrol 'Codi'r Angor'. Mae hi'n esiampl wych i bawb sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

• Fel arfer 'roedd Robin Huw Bowen yn brysur iawn yn chwarae'r Delyn deires mewn nifer o lefydd yn ystod yr wythnos. Fel y gwyddom mae Robin yn llysgennad dros y Delyn Deires. Mae ei gyd delynorion ac yntau newydd sefydlu Cymdeithas y Delyn Deires a chynhaliwyd cyfarfod lansio y Gymdeithas yn yr Eisteddfod. Bwriad y Gymdeithas yw hybu ein hofferyn Cenedlaethol gyda'r nôd o ennyn diddordeb cefnogwyr, ac wrth gwrs i ddenu mwy o chwaraewyr. Ceir mwy o wybodaeth am y Gymdeithas ar Facebook neu www.cymdeithasydelyndeires.cymru

cymdeithas
y delyn deires
welsh triple harp society

*Cymdeithas y Delyn Deires*

• Roedd yn bleserus cerdded o gwmpas yr adran Celf a Chrefft eleni gyda'i amrywiaeth o gelf a chrefft o safon uchel. Enillydd y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain oedd gwaith David Trivedy lle 'roedd ef wedi gosod patrymau traddodiadol Cymreig sydd yn golygu cynhesrwydd a chysur ar Garthenni Argyfwng sydd i'w




*Celf a Chrefft*

gweld ar ffoaduriaid o mewnfudwyr yn cyrraedd Ewrop wedi mordeithiau peryglus. Ceisiodd David dangos y croeso cynnes mae'r ffoaduriaid yn derbyn gan y Cymry.

• Roedd nifer o berfformiadau bythgofiadwy yn ystod yr wythnos yn cynnwys y dramau yn y Pafiliwn sef 'Y Tylwyth' a 'Tê yn y Grug' a darlith yr Athro Geraint Jones ar Iolo Morgannwg. Un o uchafbwyntiau rhaglen y Tŷ Gwerin oedd cyngerdd 'Doniau Cudd' . Prosiect cerddoriaeth greadigol i bobl sydd ag anableddau dysgu yw 'Doniau Cudd'. Cychwynwyd y cynllun arloesol yma yng Nghaernarfon pan ddaeth yn amlwg i Ganolfan Gerdd William Mathias a'r cerddor Arfon Wyn sydd wedi treulio blynyddoedd fel athro mewn ysgolion arbennig, bod diffyg darpariaeth gerddorol ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ar ôl gadael yr ysgol. Cawsom awr o ddiddanwch pur yn canu caneuon gwerin gyda'n gilydd. Haeddant cael eu gweld ar lwyfan y Genedlaethol yn y dyfodol.

Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:02 Page 11

# CORNEL Y TRYSORYDD



### HYDREF 2019

| | |
|---|---|
| Rhodd Eglwys Bethel, Lerpwl | £300.00 |
| Dr. Robin ac Eleri Gwyndaf, Caerdydd | £25.00 |
| Mrs Mair Nadolig Jones, Bala | £10.00 |
| Mr Norman Tee, Bala | £10.00 |
| Mr John Lyons, Knowsley | £200.00 |
| **Cyfanswm** | **£545.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

***Nid yw'r bwrdd golygyddol Yr Angor o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur.***

***Os bydd llun neu erthygl wedi ymddangos mewn unrhyw bapur bro neu gylchgrawn arall ni fydd Yr Angor o reidrwydd yn ei ddefnyddio.***

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

## LLONGYFARCHIADAU

Graddiodd tri aelod o dylwyth Mrs Nan Hughes Parry haf eleni. Roeddynt i gyd wedi mynychu Prifysgol Caerdydd ond dilyn cyrsiau gwahanol.

• Olivia See (Woolton) – Gradd dosbarth cyntaf mewn Daearyddiaeth Ddynol.

• Dafydd Wrennal (Llanddoged) – gradd Meistr (M.A.) mewn Dulliau Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol.

• Elin Wrennal (Llanddoged) – gradd (M.B.,B.Ch.) mewn meddygaeth ac mae hi'n gweithio yn Ysbyty Tywsog Siarl, Merthyr Tudful ar hyn o bryd.

**Cysylltwch â'r**

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**benatgarthdrive@talktalk.net**

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905

# *YMWELIAD CÔR CYMRY LERPWL I EISTEDDFOD LLANGOLLEN*



Ar ddiwrnod hyfryd yng Ngorffennaf teithiodd aelodau Côr Cymry Lerpwl i Langollen i gymeryd rhan mewn cyngerdd yr Eisteddfod Ryngwladol. Yno, ynghyd â Chôr Cymry Llundain, Côr Ieuenctid Wrecsam a'r Sinffonieta Brydeinig, perfformwyd cerddoriaeth gan gyfansoddwyr Cymraeg, sef William Mathias, Paul Mealor, Arwel Hughes ac Edward-Rhys Harri. Edward –Rhys Harri oedd yr arweinydd. 'Roedd Sian Cothi a Rhodri Prys Jones yn canu hefyd. Achlysur arbennig a erys yn hir yn y cof.

***Rhiannon Liddell***
***Lluniau gan Tim Evans***



# CÔR CYMRY LERPWL

## RHAGLEN 2019/20

LIVERPOOL WELSH CHORAL

PATRON: KARL JENKINS CBE

**Hydref 19eg 2019 am 7.30 o'r gloch**
**yn Eglwys All Hallows, Allerton, L18 6JJ**
Cerddoriaeth 'Baroque' clasurol
Ticedi £14.00 oddi wrth Mavis (0151 652 6374)
a Ticketmaster (https://sales.webticketmaster.com/liverpoolwelshchoral)

**Rhagfyr 16eg, 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Philharmonic, Hope St., L1 9BP**
Cyngerdd Nadolig y Côr gyda Band Pres Llaneurgain
Cyflwynydd : Aled Jones
Ticedi: £13 - £ 28 oddiwrth Mavis (0151 652 6374)
a Swyddfa Ticedi y Neuadd Philharmonic (0151 709 3789)

**Mai 2il, 2020 am 7.30 o'r gloch yn Eglwys St Faith's, Crosby, L23 4RE**
'Messiah' gan Handel
Manylion i ddilyn/ details to follow

**Mehefin 20fed, 2020 yn Neuadd Bridgewater, Manceinion, M2 3WS**
8fed symffoni Mahler
gyda Cerddorfa Symffoni Wrecsam
Manylion i ddilyn

***Am fwy o fanylion edrychwch ar ein gwefan ar www.lwcu.co.uk***

Rhifyn Hydref.qxp_Layout 1 25/09/2019 16:02 Page 13




*Brynderwen a Bro Dewi,*
*Ceredigion a Sir Gaerfyrddin*

***Annwyl Ffrindiau,***
***Diolch am* Ŵyl *Yr Angor***

Yr ydym ni'n tri yn anfon ein diolchgarwch am y croeso bendigedig a gawsom penwythnos 19-21 Gorffennaf yn eich plith darllenwyr a chefnogwyr *Yr Angor.* Bu'r safon yn eithriadol iawn. Roedd y Cinio yng Nghlwb Golff Woolton a'r bwyd yng Nghapel Bethel o'r radd flaenaf, yn fendigedig. Dymuniadau gorau am wellhad buan i Meinwen y cawsom y cyfle i'w gweld yn Ysbyty Fawr Lerpwl. Diolch yn fawr.

*Cofion gorau,*
*Betty a'i chwaer Jennifer a'i phriod David John*

**CODI ANGOR**

*Annwyl Dr. John Williams,*

Llawer o ddiolch i Bwyllgor Gwaith Y*r Angor* am y rhodd werthfawr o gyfrol ddiweddaraf Dr. Ben Rees, *Codi Angor.* Roedd Hywel newydd ddod adref ar ôl bod yn yr ysbyty am ddau fis, a bu derbyn y gyfrol hardd yn hwb mawr i godi ei galon.

Rydym eisioes wedi cael ambell i gip olwg pleserus ac edrychwn ymlaen ein dau i ddarllen y gyfrol yn drwyadl. Maer'n argoeli yn hynod o ddifyr ac mae'r diwyg yn denu darllenwyr. Llongyfarchiadau unwaith eto i'r Parchedig Ben Rees am gampwaith arall. Pob dymuniad da i Bwyllgor Gwaith Yr Angor – edrychwn ymlaen am ei ddarllen yn fisol.

Yn gywir
*Margaret a Hywel Roberts, Caernarfon*

***Gwerthfawrogi yr Angor a'r Gyfrol***
*Llanfairfechan*

*Annwyl John*

Llawer o ddiolch am anfon y gyfrol hardd o 'Codi Angor yn Lerpwl, Penbedw a Manceinion'. Yn sicr bydd yn dwyn atgofion melys o'r amser hapus a gafwyd ar y glannau. Drwy dderbyn Yr Angor edmygir eich gwasanaeth chwi a'r cyfeillion eraill am barhau i gynnal y diwylliant Cymreig yn Lerpwl. Cofir eich bod mewn olyniaeth deg â'r cyfeillion sydd bellach wedi mynd at eu gwobr. Braint oedd cydweithio â hwy a D. Ben. Rydym yn falch o ddeall bod Meinwen yn raddol wella ac anfonwn ein cofion a toch chwi a Beryl,

*Yn gywir*
*Myfanwy a Cliffford Owen*

# Adroddiad Manceinion a'r Cylch



*Eflyn Evans a Huw Edwards efo'r cyfrol newydd ar noson y cinio*

Fel sydd yn arferol i bobl sydd yn gallu teithio cafodd amryw ohonom wyliau ym mis Gorffennaf. Bum yn Aberystwyth a gyda'r tywydd mor braf roedd yn wych. Profiad da oedd mynychu capel arall ac es i gapel Cymraeg Aberystwyth a gwerthfawrogi'r croeso a'r bwrlwm. Roeddwn hefyd yn gallu mwynhau gwylio Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen ar y teledu yn y fflat lle roeddwn a gweld Emyr Owen a'i ffrindiau yn y côr a enillodd wobr haeddiannol.

Aeth rhai ohonom o Manceinion i ddathliad hyfryd eto yn Lerpwl eleni ym mis Gorffennaf, gyda phen-blwydd deugain blynedd *yr Angor* a lansiad llyfr arbennig fel rhan o'r dathlu, sef 'CODI ANGOR yn Lerpwl a Penbedw a Manceinion'. Golygydd diwyd yr Angor trwy'r deugain blynedd i gyd, Dr D. Ben Rees yw Golygydd y llyfr hefyd. Mae Dr Ben wedi gofalu bod detholiad diddorol a hanesyddol i'w fwynhau gan y darllenwyr a gallwch gael rhywbeth newydd i'w ddarllen bob dydd am dri mis neu fwy, gan pori yn y llyfr dymunol hwn!

Roedd Huw Edwards y gŵr gwadd yn y cinio dathlu wedi cymryd diddordeb mawr yn y gyfrol. (Gweler darlun o Eflyn Evans yn derbyn y llyfr). Fel pob darlith roedd y rhaglen yn amrywiol ac yn addysgiadol – clywsom am hanes y papur bro a darlithiau llawn hiwmor a gwybodaeth heb sôn am y cyngerdd bendigedig gyda'r telynor Huw Bowen a chôr i'n difyrru. Wedyn y gwasanaethau a'r Gymanfa Ganu i gloi penwythnos arbennig. Cofiwn fod y merched a'r dynion yn Bethel yn cydweithio yn galed



*Gwenda yn dangos ei chinio i'r camera!*


iawn i wneud llwyddiant o'r math dathliad, diolch iddynt ynte – a diolch i Dr Ben!

Roedd yn achos balchder i ni fod Glynn Morris ac Emyr Owen wedi gwneud mor dda yn yr Eisteddfod Genedlaethol a llawer wedi dilyn Eisteddfod fendigedig Llanrwst bob dydd ar y teledu neu gyfrifiadur. Rhywbeth arall a ddigwyddodd yn ystod yr haf oedd inni dderbyn trywel bach arian gan ddynes yn clirio tŷ ei modryb oedd yn Gymraes yn mynychu capel Cymraeg Tyldesley yma ym Manceinion. Cafodd y garreg goffa ei gosod yn 1902 ac erbyn hyn mae'r capel wedi diflannu. Roedd derbyn hwn yn gwneud i ni gofio holl aberth a balchder ein hynafiaid wrth sefydlu capeli Cymraeg dros y ffin, roedd 17 o leiaf yn y ddinas hon ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Wrth gwrs mae pobl yn cadw cysylltiad â'i gilydd a chfodd chwiorydd Capel Noddfa Oaker Avenue y syniad o gyfarfod am bryd o fwyd yn ystod y mis, fe welwch y lluniau. Roedd Gwenda Watson wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar y galon ac mae'r canlyniad yn wyrthiol i'n llygaid ni – diolch i Dduw ac i'r doctoriaid dawnus a'i theulu cariadus. Felly, roedd Gwenda yn gallu bod gyda ni yn y cinio a mwynhau pob peth.

Rwy'n diolch i bawb o'r blaenoriaid a'r aelodau sy'n ymweld ac yn gofalu am eraill. Cafodd Catherine Pritchard haint a gorfod bod yn yr ysbyty am sbel hir – mae yna welliant ond yn araf-deg. Ac nid yw henaint yn dod heb ei phroblemau i eraill chwaith, er hynny mae pawb yn cadw'n galonnog ac yn edrych ymlaen at y dyfodol. Edrychwn ymlaen at ein Rali Genhadol efo Miss Siwan Jones yn annerch, ac at oedfaon Diolchgarwch gyda'r Parch Robert Parry. A dymunwn hydref bendithiol i bawb o ddarllenwyr *Yr Angor* ym mhobman!

# GWAHODDEDIGION GŴYL YR ANGOR




Dr. Huw Edwards, yn falch o'r gyfrol



Robin Huw Bowen, Capel Seion, ger Aberystwyth, meistr y delyn



Teulu D. Ben Rees o Geredigion – Jennifer a'i chwaer Betty a'i phriod David John



Cymanfa Ganu a'r Cantorion



Robert Parry, arweinydd y Gymanfa Ganu



Côr Bara Brith o Fôn yn derbyn cymderadwyaeth Cadeirydd Yr Angor

Diolch i'r ffotograffwyr:

Ray Farley,
Dr. John G. Williams,
Teulu Wrenall,
Siân Hartley,
Jennifer Cunningham
a Tim Evans